# PWYLLGOR ARCHWILIO

Dydd Gwener, 13 Gorffennaf 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd T.M. Higgins (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
T.M. Higgins, B. Thomas, K.V. Broom, E.M.J.G. Schiavone, A.G. Morgan, E.G. Thomas, B.D.J. Phillips (In place of G.H. John) and D.E. Williams

**Hefyd yn bresennol fel sylwedydd:**
Councillor D.M. Jenkins – Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau.

**Yn bresennol o Swyddfa Archwilio Cymru:**
Mr J. Garcia, Ms A. Lewis, Mr J. Evans a Mr J. Edwards.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
H. Pugh, Pennaeth Dros Dro Archwilio, Riag a Chaffael
H. Morgan, Rhelowr Datblygu Economaidd
A. Bracey, Pennaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
P. Evans, Senior Accountant
C. Powell, Principal Auditor
R James, Performance Planning & Business Oficer
J. Jones, Rheolwr Eiddo a Phrosiectau Mawr
P. Edwards, Valuations Manager
A. Jones, Procurement & Contracting Officer
M Mason, Museum Development Manager
S Morgan, Rheolwr Asedau Strategol
C. Richards, Uwch Reolwr Diogelu
R. Copp, Cydgysylltydd Amddiffyn Plant
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir - 10.30 am - 1.35 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd G. John.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd/Aelod Pleidleisio Allanol | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Mrs J. James | 13 - Datganiad Cyfrifon 2017-2018 | Ymddiriedolwr Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru - Benthyciad ar y Datganiad Cyfrifon |

## 3. PENODI CADEIRYDD AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2018/19

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd T. Higgins yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2018/2019.**

## 4. PENODI IS-GADEIRYDD AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2018/19.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd G. Morgan yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2018/2019.**

## 5. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2017/18 & 2018/19

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd oedd yn cael ei wneud o ran gweithredu'r Cynllun Archwilio Mewnol. Nodwyd bod Rhan A yn darparu adroddiad cynnydd ar Gynllun Archwilio 2017/18 a 2018/19 ynghyd ag Argymhellion Matrics Sgorio. Roedd Rhan B yn grynodeb o adroddiadau terfynol wedi'u cwblhau ar gyfer 2017/18 ynghylch y prif systemau ariannol (Ebrill 2017 hyd y presennol). Roedd Rhan C yn ymwneud ag adolygiadau o systemau eraill ac Archwiliadau Sefydliadau.

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiadau:-

- O ran Cynllun 17/18, dywedodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol fod 90% ohono wedi'i gyflawni erbyn diwedd mis Mawrth 2018, a bod y rhesymau dros beidio â chyflawni'r 10% sydd ar ôl yn cynnwys nifer o ffactorau. Roedd y rheiny'n cynnwys colled o 28% o ran diwrnodau cynhyrchu o gymharu â cholled o 7% ar Gynllun 16/17, swyddi gwag ac absenoldeb mamolaeth. O ran Cynllun 18/19, roedd yn cyflawni 4.8% o gymharu â tharged o 5%. Mynegodd ei gwerthfawrogiad i staff yr Uned Archwilio am eu hymrwymiad a'u diwydrwydd.

  O ganlyniad i'r uchod, bu'r Pwyllgor yn ystyried awgrym ynghylch lleihau targed yr Is-adran o 90% i 80% oherwydd anawsterau parhaus o ran staffio. Fodd bynnag, y barn oedd y dylai'r targed aros yn 90% ar hyn o bryd, ac y dylid osgoi ei leihau nes bod yr holl ddulliau o fynd i'r afael â'r materion staffio wedi'u harchwilio.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y 125 diwrnod o waith a wnaed ar gyfer Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chyngor Sir Ceredigion, cafodd y Pwyllgor ei sicrhau fod adnoddau ychwanegol wedi bod ar gael drwy secondiad i wneud y gwaith hwnnw.
- O ran cyflawni 90% o Gynllun 17/18, dywedodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol fod yr Uned wedi gwneud gwaith ymchwilio ychwanegol annisgwyl yn ogystal â hynny a'i bod wedi bodloni ei Chytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r Awdurdod Tân a Chyngor Sir Ceredigion. O ganlyniad, roedd yr Uned wedi cyflawni cynhyrchiant o 104% yn gyffredinol o holl ddiwrnodau'r cynllun archwilio fel canran o ddiwrnodau'r cynllun cymeradwy.
- Cyfeiriwyd at ganran yr archwiliadau a gyflawnwyd yn unol â'r Cynllun, ac atgoffwyd y Pwyllgor mai ar ansawdd oedd y pwyslais, yn hytrach na chanran yr archwiliadau a gynhelir. Roedd yr ansawdd hwnnw'n hanfodol i alluogi'r Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol i ddarparu Barn Archwilio ynghylch y Cyngor a sicrhau bod unrhyw risgiau uchel yn cael sylw ac yn cael eu rheoli.
- Cyfeiriwyd at Adroddiad C a'r adolygiad o Reoli Eiddo. Cafodd y Pwyllgor ei sicrhau nad oedd y Cyngor wedi colli refeniw o ganlyniad i ganfyddiadau'r Archwiliad Mewnol. Yn sgil y canfyddiadau hynny, cynhaliwyd adolygiad o'r systemau rheoli eiddo ac roedd polisi newydd yn cael ei lunio i gael ei fabwysiadu drwy broses wleidyddol y Cyngor. Os caiff ei fabwysiadu, byddai hynny'n amodol ar fonitro cydymffurfiaeth yn rheolaidd.

O ganlyniad i'r uchod, awgrymwyd bod adolygiad dilynol yn cael ei gynnal ynghylch y polisi newydd a'i fod yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Archwilio ar gyfer 2019/20.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**5.1 fod yr Adroddiad Cynnydd ynghylch Cynllun Archwilio Mewnol 2017/18 ac Adroddiad Diweddaru 2018/19 yn cael eu derbyn, at ddibenion monitro,**

**5.2 bod y targed cyflawni o 90% ar gyfer Cynllun Archwilio 2018/19 yn aros yr un peth ar hyn o bryd ac nad yw'r targed yn cael ei leihau i 80% nes bod yr holl ddulliau o fynd i'r afael â'r materion staffio wedi'u harchwilio,**

**5.3 bod gwerthfawrogiad y Pwyllgor yn cael ei gyfleu i'r Staff Archwilio Mewnol am eu gwaith dros y flwyddyn flaenorol,**

**5.4 bod adolygiad dilynol o Reoli Eiddo yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Archwilio ar gyfer 2019/20.**

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWYLIAD MEWNOL 2017/18

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol, a luniwyd yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS), a oedd yn rhoi barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd amgylchedd rheoli'r Cyngor am y flwyddyn Ebrill 2017 hyd at fis Mawrth 2018, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yng Nghynllun Archwilio Mewnol 2017/18, fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Archwilio.

Nododd y Pwyllgor fod y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol o'r farn fod gan yr Awdurdod, ar y cyfan, amgylchedd rheoli digonol ac effeithiol ar waith. Roedd trefniadau llywodraethu clir sydd â chyfrifoldebau rheoli a strwythurau pwyllgor pendant ar waith. Roedd rheoli risg a'r fframwaith rheoli yn gadarn ar y cyfan ac yn cael eu gweithredu'n eithaf cyson. Roedd gan yr Awdurdod Gyfansoddiad sefydledig, ac roedd wedi datblygu polisïau a chymeradwyo Rheolau Gweithdrefn Ariannol a roddai gyngor ac arweiniad i'r holl staff ac aelodau. O ganlyniad, roedd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol yn fodlon fod gwaith sicrwydd digonol wedi ei gyflawni i'w galluogi i ddod i gasgliad rhesymol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd amgylchedd rheoli mewnol yr Awdurdod. Lle bo unrhyw wendidau wedi eu nodi drwy adolygiad archwilio mewnol, gwnaed gwaith gyda'r rheolwyr i gytuno ar gamau unioni priodol ac amserlen ar gyfer gwella.

Cyfeiriwyd at annibyniaeth y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol o ran Archwiliad Mewnol yr Awdurdod, a gofynnwyd a allai'r Adroddiad Blynyddol adlewyrchu'r annibyniaeth honno. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r adroddiad yn cael ei ddiwygio'n unol â hynny. Hefyd, cyfeiriodd at yr annibyniaeth honno mewn perthynas ag unrhyw archwiliadau a gynhelir mewn gwasanaethau y mae'r Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol yn gyfrifol amdanynt. Dywedodd fod protocol wedi'i lunio o ystyried hynny a fyddai'n cael ei gyflwyno i'w ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi.

O ganlyniad i'r uchod, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at Wasanaeth Budd-daliadau'r Cyngor, a gafodd ei gynnwys ym maes gorchwyl y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol. Cadarnhaodd fod Rheolwr y Gwasanaethau Refeniw

yn adrodd wrtho ar hyn o bryd ac y byddai'r trefniadau hynny'n parhau ar ôl ymddeoliad y Rheolwr maes o law.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**6.1 dderbyn yr adroddiad, yn unol â'r gofynion statudol,**
**6.2 bod y protocol a luniwyd ar gyfer archwilio gwasanaethau y mae'r Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol yn gyfrifol amdanynt yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi.**

## 7. BLAENRHAGLEN GWAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Ystyriodd y Pwyllgor ei Flaenraglen Waith ar gyfer blwyddyn y cyngor 2018/19.

Rhoddwyd sylw i'r sylwadau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol at yr adroddiad cynnydd ynghylch gwireddu argymhellion yr archwiliadau mewnol a ddisgwylir ar gyfer mis Mawrth 2019, a dywedodd y byddai'n cael ei baratoi ynghylch yr argymhellion na chafodd eu mabwysiadu'n unig, ar sail eithriad.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch yr amserlen ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar y Weithred Tendr Unigol a'r Astudiaeth Llywodraeth Leol - y Gronfa Gofal Canolraddol, cadarnhawyd y byddai'r adroddiad ynghylch y Gronfa Gofal Canolraddol yn cael ei gyflwyno pan fyddai'n barod. Byddai unrhyw adroddiad ynghylch Gweithred Tendr Unigol yn cael ei gyflwyno yn unol â'r angen.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Blaenraglen Waith y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2018/19.**

## 8. ASESIAD ALLANOL O ARCHWILIAD MEWNOL

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Asesiad Allanol o Archwiliad Mewnol yr Awdurdod a gynhaliwyd yn unol â Safon Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a oedd yn gofyn am asesiad allanol o wasanaethau archwilio mewnol awdurdod lleol o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan adolygydd cymwys ac annibynnol o'r tu allan i'r sefydliad.

Nododd y Pwyllgor fod y Safonau'n caniatáu dau ddull posibl o asesu allanol h.y. asesiad allanol llawn neu hunanasesiad mewnol sy'n cael ei ddilysu gan adolygydd allanol. Roedd Sir Gaerfyrddin wedi mabwysiadu'r dull o hunanasesu mewnol, a oedd wedi canfod bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â 34 (76%) o ofynion y Safonau yn gyffredinol, yn cydymffurfio'n rhannol â 10 (22%) ac roedd 1 (2%) yn amherthnasol. O ganlyniad, cytunwyd bod Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn gyffredinol ac ystyriwyd nad oedd effaith sylweddol yn sgil y diffyg cydymffurfiaeth rhannol. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod yr Archwiliad Mewnol yn cydymffurfio â'r Safonau yn yr holl feysydd pwysig ac y'i cynhaliwyd yn annibynnol ac yn wrthrychol.

Cyfeiriwyd at y Cynllun Gweithredu a oedd wedi'i atodi i'r adroddiad, a gofynnwyd am eglurhad ynghylch pwy fyddai'n gyfrifol am ei fonitro gan y mynegwyd barn na ddylai hyn gael ei wneud gan yr Awdurdod. Cadarnhawyd y byddai'r mater yn cael ei godi gyda Grŵp Prif Archwilwyr Cymru.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 9. DIWEDDARIAD AR CEFNOGI POBL

Yn unol â Chofnod 6 o'i gyfarfod ar 6 Ionawr 2017, derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad cynnydd chwemisol ar Gynllun Gweithredu y Gwasanaeth Cefnogi Pobl, a oedd yn crynhoi'r gwaith oedd wedi ei wneud hyd yn hyn i gyflawni gwelliannau yn y prosesau grant a rheoli contractau, fel y nodwyd yn Archwiliad Mewnol 2015/16 o Grant Rhaglen Cefnogi Pobl 2015/16. Nodwyd bod cynnydd da yn cael ei wneud o ran y cynllun gweithredu a oedd yn cael ei fonitro gan y Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol.

Rhoddwyd sylw i'r sylwadau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at dudalen 69 yr adroddiad a gofynnwyd am eglurhad ynghylch a oedd Llywodraeth Cymru wedi ymateb i ganfyddiadau ei Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch gweinyddu'r Grant yn well, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2018. Cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hymateb ar 2 Gorffennaf a derbyniwyd rhai o'r pwyntiau a godwyd ond nid pob un ohonynt. Roedd yr ymateb hwnnw wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 6 Gorffennaf 2018.
- Atgoffwyd y Pwyllgor ei fod wedi gofyn am adroddiad ynghylch y rheoliadau caffael a chydymffurfiaeth yr Awdurdod â hwy, yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2017. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y sefyllfa bresennol.

  Cadarnhaodd y Swyddog Caffael a Chontractio fod yr Awdurdod, ynghyd â'i bartneriaid perthnasol, yn gweithio'n ddiflino drwy'r materion a nodwyd er mwyn sicrhau bod anghenion cleientiaid yn cael eu diwallu ac roedd hefyd yn datblygu cynlluniau gweithredu cysylltiedig. Er enghraifft, roedd gwasanaeth cyflawni newydd wedi'i ddatblygu o ran y Strategaeth Cam-drin Domestig a fyddai'n destun proses dendro cyn bo hir. Roedd gwaith yn cael ei wneud hefyd ar yr holl brosiectau er mwyn sicrhau gwerth am arian ac ystyried a ddylid eu hail-dendro neu eu digomisiynu gan nad ydynt yn diwallu anghenion y cleientiaid erbyn hyn.

- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Swyddog Caffael a Chontractio fod yr Awdurdod yn cydymffurfio â nifer o'r gweithdrefnau ac o ran y diffyg cydymffurfiaeth, roedd gwaith yn cael ei wneud ar y contractau penodol hynny i sicrhau cydymffurfiaeth yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**6.1 dderbyn yr adroddiad;**

**6.2 bod yr adroddiad cynnydd chwemisol nesaf yn cynnwys cyfeiriad at broses gaffael y Cyngor.**

## 10. DIWEDDARIAD CYNLLUN GWEITHREDU AMGUEDDFEYDD

Yn unol â Chofnod 3 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2017, cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar Gynllun Gweithredu'r Amgueddfeydd a oedd yn crynhoi'r gwaith y cytunwyd arno a'r cynnydd a wnaed hyd yma gan y Tîm Amgueddfeydd i wella ei brosesau.

Rhoddwyd sylw i'r sylwadau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y gwaith o brisio casgliad amgueddfeydd y Cyngor ac a allai'r Cyngor ddefnyddio arbenigedd y Gwasanaeth Amgueddfeydd wrth gyflawni'r dasg honno. Dywedodd y Rheolwr Datblygu Amgueddfeydd fod rhaid i unrhyw broses brisio gydymffurfio â gofynion y sefydliad unigol, er bod yna ganllawiau amrywiol ac arferion da o ran hynny. Yn yr un modd, gallai'r gwaith o brisio gwrthrychau unigol gael ei wneud mewn nifer o ffyrdd a byddai angen cyflogi prisiwr masnachol er mwyn prisio'i gasgliad.
- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio'r Neuadd Sirol yng Nghaerfyrddin i gyfeirio ymwelwyr at gyfleusterau amgueddfeydd y Cyngor, cadarnhawyd nad oedd modd gwneud hynny oherwydd bod yr eiddo wedi cael ei brydlesu i drydydd parti. Fodd bynnag, roedd y perchnogion newydd wedi cytuno y gallai llawr cyntaf yr adeilad gael ei agor i ymwelwyr â'r Sir ac roedd trafodaethau mewn perthynas â hynny yn cael eu cynnal gyda'r Is-adran Amgueddfeydd.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch dyddiad targed ar gyfer cytuno ar ddull o brisio gweddill casgliadau'r Awdurdod, sef Ebrill 2019, dywedodd y Rheolwr Datblygu Amgueddfeydd mai darparu System Rheoli Casgliadau fydd y blaenoriaeth i ddechrau. Ar ôl hynny, gallai'r gwaith ddechrau ar y casgliadau.
- Cadarnhaodd y Rheolwr Datblygu Amgueddfeydd fod gan yr Awdurdod bolisi ar waith ar gyfer cylchdroi a newid yr arddangosfeydd yn ei amgueddfeydd, a'i fod yn cyfathrebu'n agos â grwpiau cymunedol amrywiol a'r Adran Addysg mewn perthynas â hynny.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**10.1 dderbyn y Diweddariad ar Gynllun Gweithredu'r Amgueddfeydd;**
**10.2 bod y Pwyllgor yn cael adroddiad cynnydd pellach ymhen 12 mis**

## 11. COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

Yn unol â Chofnod 7 ei gyfarfod ar 23 Mawrth 2018, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ynghylch y ddwy risg mewn perthynas â 'Darparu Trefniadau Diogelu Effeithiol' a 'Galw Effeithiol am Ofal Cymdeithasol'.

Cyfeiriodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol at yr ail risg a gofynnodd am ohirio ystyried y risg honno tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

O ran y risgiau a nodwyd mewn perthynas â 'Darparu Trefniadau Diogelu Effeithiol', dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu fod y rheiny'n cael eu hystyried yn risgiau uchel ac amlddisgyblaethol. Er mwyn mynd i'r afael â'r risiau hynny, roedd yr Awdurdod wedi gweithredu nifer o fesurau gan gynnwys sefydlu Grŵp Llywio Corfforaethol, datblygu cofrestr Risgiau Diogelu, ac yn sgil y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd, roedd wedi sefydlu Bwrdd Diogelu rhanbarthol newydd ynghyd â grwpiau gweithredol lleol.  Roedd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn archwilio ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf, tra bod y grwpiau lleol yn sicrhau bod gwasanaethau lleol yn cael eu darparu. Cadarnhaodd fod camau breision wedi'u cymryd o ran diogelu dros y 12 mis diwethaf, cynhaliwyd cyfarfodydd misol a chyflwynwyd adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar gan yr Uwch-reolwr Diogelu a'r Cyd-gysylltydd Amddiffyn Plant am weithrediad a threfniadaeth eu gwasanaethau i sicrhau darpariaeth gwasanaeth effeithlon.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch lefel y cymorth sydd ar gael i'r boblogaeth symudol yn y Sir, y mae rhai ohonynt o bosibl yn agored i niwed, dywedwyd bod unrhyw berson sy'n cael ei gyflwyno neu ei gyfeirio at y Cyngor yn cael ymateb sy'n gyd-gysylltiedig ar draws y sir gyfan a'r lefel briodol o gymorth, er nad yw'n broblem sylweddol yn y sir.
- Cyfeiriwyd at nifer o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau mewn ardal benodol o'r Sir a dywedodd y Pwyllgor fod ymchwiliadau'n cael eu cynnal ar y cyd â phartneriaid y Cyngor er mwyn canfod a oedd unrhyw un o'r rheiny'n cynnwys materion diogelu.
- Cyfeiriwyd at y ffaith nad oedd y Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi'i diweddaru yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth, lle gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth am y Risg Diogelu. Felly gofynnwyd i'r Adran sicrhau y caiff ei diweddaru.
- Cyfeiriwyd at yr angen i'r Pwyllgor gael sicrwydd fod unrhyw risgiau a nodwyd yn cael sylw. Atgoffwyd y Pwyllgor y byddai'r gofrestr risg gorfforaethol yn cael ei hychwanegu at yr agenda i'w thrafod yn ei gyfarfod nesaf pan fo cyfle. Yn ogystal â gohirio ystyried y risg o 'Alw Effeithiol am Ofal Cymdeithasol' tan y cyfarfod nesaf, atgoffwyd y Pwyllgor hefyd ei fod wedi gofyn am i ddwy risg ychwanegol a nodwyd yn ei gyfarfod ym mis Mawrth gael eu hychwanegu at yr agenda ar gyfer ei gyfarfod ym mis Medi.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**11.1 dderbyn yr adroddiad ynghylch 'Darparu Trefniadau Diogelu Effeithiol'.**

**11.2 gohirio ystyried yr adroddiad ynghylch 'Galw Effeithiol am Ofal Cymdeithasol' tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor.**

## 12. YSTYRIED Y DOGFENNAU CANLYNOL PARATOWYD GAN SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU:-

### 12.1. ADRODDIADAU LLEOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Lleol Swyddfa Archwilio Cymru a luniwyd mewn perthynas â gwerthusiad o Adolygiad y Cyngor ynghylch Rheoli Pobl a Pherfformiad a gynhaliwyd yn 2017. Er bod y Cyngor wedi cynnal adolygiad trylwyr a chynhwysfawr o'i brosesau rheoli pobl a pherfformiad a'i fod wedi datblygu argymhellion clir a dargedwyd, roedd saith mis wedi mynd heibio ers i'r adolygiad gael ei gwblhau, pryd na chymerwyd camau i naill ai fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad neu ddatblygu cynllun gweithredu. Ystyriwyd bod paratoi a gweithredu'r cynllun gweithredu hwnnw'n bwysig er mwyn atal risgiau, neu fel arall byddant yn parhau i fodoli.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch yr amser oedd wedi mynd ers cyhoeddi'r adroddiad, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Grŵp Llywio Rheoli Pobl wedi cynnal cyfarfod yn ddiweddar er mwyn trafod ei ganfyddiadau ac mai cyfrifoldeb y Grŵp yw sicrhau bod y gwaith o baratoi'r cynllun gweithredu yn symud yn ei flaen. Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad cynnydd ar hynny yn ei gyfarfod ym mis Medi.

Cyfeiriwyd at y gwaith a wnaed gan y Grŵp Llywio ac at yr amserlen ar gyfer gweithredu. Cadarnhawyd y byddai'r Grŵp Llywio yn pennu'r amserlenni.

Yn sgil yr uchod, awgrymwyd y dylai'r adroddiad sy'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Medi fanylu ar y camau a gymerwyd yn unol ag argymhellion yr adroddiad ynghyd ag esboniadau ynghylch y rhai na chafodd eu cwblhau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**12.1.1 dderbyn Adroddiad Lleol Swyddfa Archwilio Cymru.**
**12.1.2 bod yr adroddiad cynnydd ynghylch Adolygiad y Cyngor o Reoli Pobl a Pherfformiad 2017 a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Medi yn cynnwys unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd yn unol ag argymhellion yr adroddiad ynghyd ag esboniadau ynghylch y rhai na chafodd eu cwblhau.**

## 12.2. CYNGOR SIR GAERFYRDDIN DIWEDDARIAD PWYLLGOR ARCHWILIO - GORFFENNAF 2018

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a luniwyd mewn perthynas â gwaith archwilio ariannol a pherfformiad yn y Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch monitro'r argymhellion a oedd yn codi o'r Adroddiad Gwella Blynyddol, cadarnhawyd y byddai'n cael ei wneud gan y Cyngor ac y byddai'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried adroddiad ynghylch hynny yn ei gyfarfod ym mis Medi. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd unrhyw waith dilynol a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei gynnwys mewn archwiliad dilynol o Gynllun Gwella'r Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch olrhain a chofnodi argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru, dywedwyd bod System Monitro Perfformiad a Gwella (PIMS) y Cyngor yn cael ei defnyddio o ran hynny.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.**

## 12.3. ADRODDIADAU CENEDLAETHOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiadau Cenedlaethol canlynol gan Swyddfa Archwilio Cymru:-

1. Comisiynu Strategol y Gwasanaethau Llety ar gyfer Oedolion ag Anableddau Dysgu;
2. Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015: Ystyried Blwyddyn Un;
3. Siarad fy Iaith: Goresgyn rhwystrau o ran iaith a chyfathrebu yn y gwasanaethau cyhoeddus.

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiadau:-

- Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith a wnaed gan y Cyngor dros y deuddeg mis diwethaf er mwyn mynd i'r afael ag anghenion Oedolion ag Anableddau Dysgu o ran llety, gan arwain at lunio Strategaeth Lety Ddrafft a datblygu offer rhagfynegi ar gyfer anghenion yn y dyfodol. Roedd gwaith hefyd yn cael ei wneud gyda Gwasanaeth Tai'r Cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn darparu ystod o lety amgen i ddiwallu anghenion pawb e.e.

llety cymunedol/gofal preswyl. Bydd hi'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch tudalen 164 o'r adroddiad, sy'n cyfeirio at y ffaith mai dim ond 12 awdurdod lleol oedd wedi ymgysylltu â grwpiau sy'n cynrychioli defnyddwyr gwasanaethau, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu mai Sir Gaerfyrddin oedd un o'r 12. Ystyrid bod ymgysylltu ac ymgynghori fel hyn â defnyddwyr gwasanaethau yn hanfodol er mwyn cyflawni newid i'r gwasanaethau ac roedd yn flaenoriaeth uchel yn yr Is-adran.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**12.3.1 dderbyn Adroddiadau Cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru.**
**12.3.2 bod adroddiad diweddaru ynghylch Comisiynu Strategol y Gwasanaethau Llety ar gyfer Oedolion ag Anableddau Dysgu yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Medi.**

## 13. DATGANIAD CYFRIFON 2017-2018

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2017/18, a luniwyd yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a ddaeth â holl drafodion ariannol yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ynghyd, yn ogystal â manylu ar asedau a rhwymedigaethau'r Awdurdod fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2018.

Yn ystod 2017/18 roedd yr Awdurdod wedi cadw at gyllideb gwariant net Cronfa gyffredinol y Cyngor, ac roedd y canlyniadau canlynol wedi eu cynnwys yn y Datganiad Symudiadau Cronfeydd:-

- Cronfa'r Cyngor (ar gael yn gyffredinol ar gyfer gwariant newydd) – trosglwyddo i'r gweddillion £480k;
- Balances held by schools under local management schemes – transfer from balances £195k;
- Y Cyfrif Refeniw Tai – cynnydd yn y gweddill o £6.103m gan gynnwys £3.8m i gefnogi Strategaeth Tai Fforddiadwy'r Awdurdod

Er bod gwasgfeydd ar nifer o feysydd gwasanaeth ar draws yr Awdurdod oherwydd y galw yn ystod y flwyddyn, nodwyd bod y rhain wedi eu gwrthbwyso gan danwariant mewn meysydd eraill, yn enwedig o ran costau cyllido cyfalaf, a chan lefel uwch na'r disgwyl o ran casglu'r Dreth Gyngor.

Roedd yr alldro a ddeilliai o hynny yn golygu bod yr Awdurdod wedi trosglwyddo £480k i'w gronfeydd wrth gefn cyffredinol, yn erbyn £200k yr oedd wedi'i drosglwyddo o'r cronfeydd wrth gefn.

Hefyd ceisiwyd sylw a chaniatâd ôl-weithredol gan y Pwyllgor mewn perthynas â'r symudiadau canlynol i'r cronfeydd wrth gefn ac oddi wrthynt:-

*Y Gronfa Ymddeol Gorfforaethol* - £750k i gefnogi polisi dileu swyddi ac ymddeol yn gynnar yr Awdurdod, gan ei alluogi i ddarparu ar gyfer y straen actiwaraidd ar y Gronfa Bensiwn sy'n digwydd yn sgil ymddeol yn gynnar neu ddileu swyddi;

*Y Gronfa Datblygiadau Mawr* - trosglwyddo £2.041m i gefnogi datblygiadau mawr yn y dyfodol;

*Cyllid Cyfalaf y Rhaglen Moderneiddio Addysg* – Clustnodi £3.533 miliwn yng nghyllideb 2017-2018 i dalu am gost benthyca darbodus i gyllido'r Rhaglen Moderneiddio Addysg - i'w ddefnyddio yn 2018-2019;

Cronfa wrth Gefn y Fargen Ddinesig - trosglwyddo £2m i alluogi gwariant posibl yn y dyfodol mewn perthynas â phrosiectau'r Fargen Ddinesig.

Cyfeiriwyd at waith y Cyngor o ran sefydlu cwmnïau 'hyd braich' mewn perthynas â darparu tai a Llesiant ynghyd â newid statws CWM Environmental o 'hyd braich' i gwmni TEKKEL. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch sut y byddai'r cwmnïau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiadau Cyfrifon yn y dyfodol. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cwmnïau 'hyd braich' yn cael eu hadlewyrchu yn y nodiadau sydd ynghlwm wrth y Datganiad Cyfrifon ac y byddent yn cynnwys manylion am unrhyw fenthyciadau a ddarperir. O ran CWM, byddai angen llunio Datganiad Cyfrifon ffurfiol i'w gyflwyno i'w Fwrdd Rhanddeiliaid.

Nodwyd bod aelodau'r Pwyllgor wedi bod yn bresennol mewn sesiwn briffio yr wythnos honno ynghylch y Datganiad Cyfrifon, lle'r oeddynt wedi cael cyfle i gael gwedd gliriach ar yr holl agweddau ar y Datganiad Cyfrifon.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**13.1 dderbyn Datganiad Cyfrifon Cyngor Sir Caerfyrddin 2017/18;**

**13.2 cymeradwyo'n ôl-weithredol y symudiadau o'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ac iddynt, yn enwedig trosglwyddiadau i**

- **Y Gronfa Ymddeol Gorfforaethol**
- **Y Gronfa Datblygiadau Mawr**
- **Cyllid cyfalaf Rhaglen Moderneiddio Addysg**

**13.3 cymeradwyo'r cynllun i sefydlu Cronfa Wrth Gefn y Fargen Ddinesig yn ôl-weithredol**

## 14. DATGANIAD CYFRIFON CRONFA BENSIWN DYFED 2017-2018

**HYD Y CYFARFOD**
Am 1.30pm wrth ystyried yr eitem hon, tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o'r Weithdrefn Gorfforaethol - 'Hyd Cyfarfod' - ac at y ffaith bod y cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr. Felly

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL atal Rheolau o'r Weithdrefn Gorfforaethol er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ystyried yr eitemau a oedd ar ôl ar yr agenda.**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed 2017/18, a luniwyd yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a ddaeth â holl drafodion ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed dros y flwyddyn ynghyd, yn ogystal â manylu ar ei hasedau a'i rhwymedigaethau fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2018.

Adroddwyd bod asedau net y Gronfa wedi cynyddu £97m o 2016/17 i 2017/18 a bod y cynnydd yn gysylltiedig yn bennaf â chynnydd yng ngwerth yr asedau buddsoddi ar y farchnad. O ran gwariant y Gronfa, roedd y budd-daliadau a

dalwyd a'r trosglwyddiadau allan wedi cynyddu £2.4m i £82.5m, ac roedd y cyfraniadau a'r trosglwyddiadau i mewn wedi cynyddu £1.6m i £73.4m o ran yr incwm.

Nodwyd bod aelodaeth gyfan y gronfa wedi cynyddu 555 o 49,959 yn 2016/17 i 46,514 yn 2017/18, sef cynnydd o 1.2%

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed 2017/18.**

## 15. DATGANIAD ARIANNOL AWDURDOD HARBWR PORTH TYWYN 2017-18

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Ddatganiad Ariannol Awdurdod Harbwr Porth Tywyn 2017-18, a luniwyd yn unol â Deddf Harbyrau 1964, a nodai ei bod yn ofynnol i bob Awdurdod Harbwr Statudol lunio datganiad blynyddol o gyfrifon ynghylch gweithgareddau'r harbwr.

Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, roedd y cyfrifon hynny ar ffurf cyfrif incwm a gwariant blynyddol ar wahân a datganiad balansau. Cost net gweithgareddau'r harbwr yn 2017-18 oedd £3,353k ac roedd yr holl weithgareddau'n cael eu cyllido'n llawn gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Roedd yr asedau sefydlog a ddelir ar 31 Mawrth 2018 yn dod i gyfanswm o £1,000k. Roedd cost net £3,353k yn cynnwys cyfraniad ariannol o £138k (2016/17 - £85k) a chyfraniad ar gyfer taliadau cyfalaf o £3,315k (2016-17 - £170k), ac roedd y cynnydd oherwydd colled ailbrisio asedau'r harbwr.

Nodwyd hefyd bod yr Awdurdod wedi rhoi prydles tymor hir i The Marine & Property Group Ltd o 1 Ebrill 2018 ymlaen, i gymryd cyfrifoldeb am gynnal a rheoli'r Harbwr, a fyddai'n arwain at fuddsoddiad a datblygiad pellach o'r Harbwr ac felly yn cynyddu ei hyfywedd ariannol a'i gynaliadwyedd yn y dyfodol.

O ganlyniad i brisio'r brydles, nodwyd bod sail y gwaith o brisio asedau'r harbwr wedi newid, gan arwain at y golled ailbrisio.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Datganiad Cyfrifon Awdurdod Harbwr Porth Tywyn 2017-18.**

## 16. COFNODION GRWPIAU PERTHNSAOL IR PWYLLGOR ARCHWYLIO

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y cofnodion canlynol:-**

- **Panel Grantiau - 16 Mai 2018**

## 17. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 23 MAI 2018

Nododd y Pwyllgor bod y cyfeiriad at 23 Mai yn y teitl yn anghywir ac y dylai ddweud '23 Mawrth 2018'

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2018 gan eu bod yn gywir.**

CADEIRYDD

DYDDIAD